# DATGANIAD O RESYMAU

## 1. B4293, Cymuned y Dyfawden

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi derbyn pryderon gan drigolion lleol a sylwadau gan yr aelodau Cyngor etholedig lleol am lefel diogelwch y ffordd i ddefnyddwyr y safle bws (gan gynnwys y plant ysgol sydd yn neidio ar ac oddi ar y bws ysgol yn y lleoliad hwn) sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd o fewn y terfynau cyflymder cenedlaethol. Er mwyn gwella lefel diogelwch y ffordd i ddefnyddwyr y briffordd sy'n fregus, rydym yn cynnig gostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol presennol i 30 milltir yr awr (mya). Mae'r cynnig ar gyfer y terfyn 30 mya hefyd yn cynnwys tramwyfeydd ar gyfer cerbydau sydd yn arwain at yr aneddiadau preswyl.

## 2. B4245 a Heol Cil-y-coed, Cymuned Cil-y-coed

Roedd Cyngor Sir Fynwy wedi gwneud Gorchymyn i weithredu terfyn cyflymder 20 milltir yr awr (mya) ar y B4245 ac ar Heol Cil-y-coed fel rhan o Orchymyn Diwygio Rhif 1 (2022). Roedd y terfyn 20 mya yma yn un o ardaloedd peilot Glannau Hafren Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi derbyn sylwadau gan yr aelodau Cyngor etholedig lleol ynglŷn â'r terfyn cyflymder 20 mya a weithredwyd yng Ngorchymyn Diwygio Rhif 1 (2022). Yn dilyn adolygiad o berthnasedd 'meini prawf lle' Llywodraeth Cymru i'r B4245 gan swyddogion a'r Aelodau Etholedig ar gyfer Glannau Hafren, cynigir (a) gweithredu terfyn 30 mya ar ran o'r B4245 rhwng Ffordd Woodstock a chylchdro Parc Busnes Castlegate lle y mae'r eiddo preswyl yn cefnu ar y B4245 ac nid oes yna ddatblygiadau preswyl yn wynebu'r ffordd yma; a (b) gweithredu terfyn 30mya ar Heol Cil-y-coed o gylchdro Parc Busnes Castlegate i'r bont dros yr hen linell rheilffordd; a (c) er budd diogelwch y ffordd ar gyfer defnyddwyr y ffordd sy'n fregus gan gynnwys plant ysgol sydd yn mynychu Ysgol Durand, gweithredu terfyn cyflymder 20 mya ar adegau a chyfnodau penodol ar y B4245 o fewn dalgylch Ysgol Durand.